Hawdd ei Ddeall

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru

Sut y byddwn ni'n cynnwys pobl yn ein gwaith ni o 2020 i 2023

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gweithio gyda'n Gilydd i wneud gwahaniaeth: Cynllun Ymgysylltu 2020-2023**'.

Gorffennaf 2020

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e mewn ysgrifen glas normal. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl ar dudalen 16.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru/

Ebost: agc@llyw.cymru

Ffôn: 0300 7900 126

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....2

Cyflwyniad.....4

Pam bod cynnwys pobl yn bwysig.....5

Beth fyddwn ni'n ei wneud.....8

Ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.....11

Ein cynllun ni.....12

Beth fyddwn ni'n ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ein gwaith ni ac yn ei ddeall 12

Beth fyddwn ni'n ei wneud i wneud yn siŵr bod beth mae pobl yn feddwl yn gwneud gwahaniaeth.....13

Beth fyddwn ni'n ei wneud i rannu beth rydyn ni'n ei ddysgu i helpu i wneud pethau'n well 15

Geiriau Anodd.....16

Cyflwyniad

Ni ydy **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Ein gwaith ni ydy gwneud yn siŵr taw'r gwasanaethau gofal a chymdeithasol yw'r gorau maen nhw'n gallu bod.

Rydyn ni eisiau taw ni yw'r corff gorau rydyn ni'n gallu bod. Rydyn ni wedi ysgrifennu cynllun o'r enw **Cynllun Strategol 2020-2023** i'n helpu ni gyda hyn.

Mae ein **Cynllun Strategol** ni yn dweud beth ydy ein 3 nod mwyaf pwysig ni. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cymryd rhan yn ein gwaith ni er mwyn cyflawni'r nodau yma.

Rydyn ni wedi ysgrifennu'r cynllun yma i wneud yn siŵr ein bod ni'n cynnwys pobl yn ein gwaith ni. Ac i'n helpu ni i wneud yn siŵr bod pobl yn:

- Gwybod beth rydyn ni'n wneud.
- Gwybod sut i ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl.
- Gwybod bod beth maen nhw'n ddweud yn ein helpu ni i wneud ein gwasanaethau ni yn well.

Pam bod cynnwys pobl yn bwysig

Ein gwaith ni ydy edrych ar wasanaethau gofal a chymdeithasol fel:

- **Gwasanaethau oedolion** fel cartrefi gofal a gofal cartref.

- **Gwasanaethau plant** fel cartrefi gofal a **mabwysiadu**.

> **Mabwysiadu** ydy ffordd o gael teulu newydd i blant sydd ddim yn gallu cael eu magu gan y rhieni oedd ganddyn nhw pan wnaethon nhw gael eu geni.

- **Gofal plant a gwasanaethau chwarae** fel meithrinfeydd.

Mae clywed oddi wrth bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau yma yn bwysig iawn i ni.

Mae'n bwysig bod gan bobl lais mewn sut mae eu gwasanaethau yn cael eu darparu. Ac yn gallu dweud wrthyn ni pa mor dda neu ddrwg ydy eu gwasanaethau nhw.

Fe ddylai fod gan bobl lais hefyd mewn sut rydyn ni'n gweithio ac yn edrych ar wasanaethau.

Rydyn ni wedi gweithio gyda phobl i ysgrifennu'r cynllun yma. Gyda'n gilydd roedden ni'n edrych ar y ffyrdd gorau o gynnwys pobl yn ein gwaith ni.

Er mwyn ei wneud yn dda roedden ni'n cytuno y dylen ni wneud yn siŵr:

- Ein bod ni'n cynnwys pobl ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

- Bod pobl yn gallu gwneud gwahaniaeth pan maen nhw'n cymryd rhan.

- Bod pethau yn cael eu cynllunio yn dda a bod gan bobl ddigon o amser i gymryd rhan.

- Bod pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael eu clywed.

- Rydyn ni'n defnyddio gwahanol ffyrdd o gael pobl i gymryd rhan.

- Rydyn ni'n ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i bobl gymryd rhan.

Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni:

- Yn rhoi llawer o gyfleoedd a llawer o ffyrdd i bobl gymryd rhan.

- Yn cael llawer o wahanol bobl i gymryd rhan.

- Bod yn glir ynghylch pam ein bod ni eisiau i chi gymryd rhan. A sut y byddwn ni'n defnyddio beth rydych chi'n ei ddweud i wneud pethau'n well.

- Ei gwneud hi'n hawdd i weld sut rydych chi'n gallu cymryd rhan yn ein gwaith ni.

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Ac yn gwybod pa mor bwysig ydy beth maen nhw'n ei ddweud.

- Rhoi gwybod i bobl sut maen nhw wedi helpu i wneud gwahaniaeth. A defnyddio eich barn chi i wneud pethau'n well.

- Ysgrifennu a gwneud pethau mewn ffordd rydych chi'n gallu ei ddeall.

- Dilyn y canllawiau i gynnwys pobl yn ein gwaith ni.

Fe fyddwn ni'n cynnwys llawer o wahanol bobl yn ein gwaith ni, fel:

- Pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau, a'u teuluoedd a'u gofalwyr nhw.

- Pobl sydd yn byw yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

- Pobl sydd yn gweithio mewn gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

- Cyrff fel elusennau sydd yn cynrychioli pobl gydag anghenion gofal cymdeithasol.

- Pobl sydd yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

- Cyrff eraill sydd yn gwneud yr un math o waith â ni. Er enghraifft Estyn, sydd yn edrych ar ysgolion.

Ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Grŵp o bobl ydy ein **Bwrdd Cynghori Cenedlaethol** ni sydd yn cyfarfod i ddweud wrthyn ni beth mae gwahanol bobl yn ei feddwl.

Mae ein **Bwrdd Cynghori Cenedlaethol** yn rhan bwysig o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i gynnwys pobl. Dyma'r bobl sydd yn aelodau:

- pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

- teuluoedd a gofalwyr.

- pobl sydd yn gweithio mewn gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

Maen nhw'n ein helpu ni i:

- Gwybod beth sydd yn cyfrif i bobl.

- Cynllunio ein gwaith ni bob blwyddyn.



- Ein gwneud ni a'r gwasanaethau rydyn ni'n edrych arnyn nhw yn well.

Ein cynllun ni

Rydyn ni'n gwneud pethau nawr i wneud yn siŵr bod pobl yn cymryd rhan yn ein gwaith ni.



Mae'r cynllun yma yn dweud beth fyddwn ni'n ei wneud am y 3 blynedd nesaf i wneud pethau hyd yn oed yn well.

Beth fyddwn ni'n ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ein gwaith ni ac yn ei ddeall

- Gwneud yn siŵr bod ein gwefan ni'n hawdd i'w defnyddio. A lle ar ein gwefan ni am sut i gymryd rhan yn ein gwaith ni.

- Cael cyfarfod bob blwyddyn gyda phobl sydd yn trefnu gwasanaethau i ddweud wrthyn nhw am ein gwaith ni.

- Gwneud gwybodaeth yn syml ac yn glir i helpu pobl i wneud dewisiadau.

- Chwilio am wahanol ffyrdd o gynnwys pobl yn ein gwaith ni. Yn cynnwys pobl sydd yn methu siarad.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwybodaeth amdanom ni yn hawdd. A hefyd darparu ein dogfennau mwyaf pwysig ni mewn fersiwn **hawdd ei ddeall**.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod beth rydyn ni eisiau iddyn nhw ei ddweud wrthyn ni.

Beth fyddwn ni'n ei wneud i wneud yn siŵr bod beth mae pobl yn feddwl yn gwneud gwahaniaeth

- Meddwl bob amser am gyfleoedd newydd i gynnwys pobl yn ein gwaith ni.

- Gwneud ein holiaduron ni'n well.

- Newid ein gwefan ni fel ei bod hi'n hawdd i bobl allu dweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl.

- Cynnal digwyddiadau mewn lleoedd mae pawb yn gallu mynd iddyn nhw ac yn gallu eu defnyddio nhw.

- Siarad â chyrff sydd yn cynrychioli pobl sydd angen gwasanaethau gofal a chymdeithasol.

- Cael pobl i'n helpu ni i gyfweld â staff newydd.

- Chwilio am ffyrdd gwahanol o gael barn pobl.

- Cael pobl i'n helpu ni i **raddio** pa mor dda ydy gwasanaethau.

Graddio ydy rhoi sgôr neu lefel i **rywbeth**.

- Defnyddio pethau fel cyfrifiaduron i helpu i rannu gwybodaeth ac i helpu pobl i rannu beth maen nhw'n feddwl. Er enghraifft, drwy fideos ac YouTube.

Beth fyddwn ni'n ei wneud i rannu beth rydyn ni'n ei ddysgu i helpu i wneud pethau'n well

- Gofyn i bobl sydd yn gweithio mewn gofal plant a chwarae am y ffyrdd gorau o raddio gwasanaethau.

- Cynnwys pobl mewn darganfod y ffyrdd gorau o raddio gwasanaethau.

- Cynnwys pobl mewn gwneud ein hadroddiadau ni'n well.

- Gweithio gyda phartneriaid i gynnal digwyddiadau dysgu i helpu i wneud pethau yn well.

- Gweithio gyda chyrff eraill i wneud yn siŵr ein bod ni ddim yn gwneud yr un gwaith. A rhannu beth rydyn ni'n ei ddysgu.

- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gwrando ar y bobl sydd yn defnyddio eu gwasanaethau nhw.



- Ysgrifennu adroddiad gyda **Gofal Cymdeithasol Cymru** ar ofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Geiriau Anodd

Mabwysiadu

Mabwysiadu ydy ffordd o gael teulu newydd i blant sydd ddim yn gallu cael eu magu gan y rhieni oedd ganddyn nhw pan wnaethon nhw gael eu geni.

Graddio

Mae graddio yn meddwl rhoi sgôr neu lefel i rywbeth.

978-1-80038-455-2